

# Adrodd am Atgyweiriad

Mae'n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i ni am unrhyw atgyweiriadau cyn gynted â phosibl fel ein bod yn ymwybodol o unrhyw faterion ac y gallwn eu harchwilio a'u trwsio cyn gynted â phosibl.

## 1. Sut ydw i'n adrodd am fy atgyweiriad?

### Gallwch adrodd am eich atgyweiriad drwy

- Ffonio eich Swyddfa Tai Lleol a gwasgu Opsiwn 1 er mwyn cysylltu â'r Tîm Atgyweiriadau wedi'u Ganoli
- Ymweld a'ch Swyddfa Tai Lleol
- Ysgrifennu at eich Swyddfa Tai Lleol
- E-bostio eich Swyddfa Tai Lleol
- Ffonio'r tîm atgyweirio wedi'i ganoli
- Ffonio'r wasanaeth allan o oriau – ar gyfer atgyweiriadau argyfwng yn unig

Mae manylion cyswllt hefyd ar gael:

- Yn yr is-adran "Cysylltu â Ni"
- Ar wefan y Cyngor

## 2. Pan fydd atgyweiriad yn cael ei adrodd byddwn yn:

- Gwirio os yw eisoes wedi cael ei adrodd, neu os yw'n mynd i gael ei wneud drwy rhaglen gweithfeydd mawr y Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).
- Gwirio i weld a yw'r gwaith atgyweirio yn gyfrifoldeb y tenant neu lesddeiliad (mewn fflatiau)
- Penderfynu pa mor gyflym y dylem ymateb
- Pan fydd apwyntiad am atgyweiriad neu syrfêwr yn cael ei wneud, bydd neges destun yn cael ei hanfon at eich dyfais symudol i gadarnhau'r apwyntiad. Bydd ail neges destun yn cael ei hanfon i'ch atgoffa y diwrnod cyn yr apwyntiad.

### Byddwn yn dweud wrthoch:

- Os bydd angen i ni archwilio'r atgyweiriad a'r amserlen ar gyfer yr arolygiad
- Pa flaenoriaeth fydd yn cael ei rhoi i'r gwaith
- Rhif/rhif cyfeirnod y gwaith
- Dyddiad ac amser ar gyfer apwyntiad, os yw'n briodol
- Os yw'r atgyweiriad yng nghyfrifoldeb cynnal a chadw'r tenant
- Os bydd yr atgyweiriad yn cael ei gyflawni gan weithlu'r Cyngor neu Gontractwr

Mae system apwyntiadau yn gweithredu ar gyfer y mwyafrif o'r mathau o flaenoriaethau atgyweirio ac arolygiadau.

## 3. Ailgodi Taliadau am Atgyweiriadau

Gellir ailgodi taliadau gennych am atgyweiriadau sy'n gyfrifoldeb i chi ond sydd wedi'u cyflawni gan y cyngor fel a ganlyn:

- Esgeulustod – difrod ataliadwy a achoswyd gennych chi am fethu â chymryd y camau priodol neu drwy ddiffyg gofal.
- Clirio Eiddo – Yn ystod tenantiaeth neu pan fydd tenantiaeth yn dod i ben ar gyfer gwaith a nodwyd fel eich cyfrifoldeb chi, gan gynnwys clirio unrhyw sbwriel ac eiddo personol sydd wedi cael eu gadael yn yr atig, gardd, garej, adeiladau allanol ac ardaloedd cymunedol.
- Difrod – a achosir gan eich gweithredoedd chi fel y tenant, chi fel y cyn denant, eich teulu, pobl yr ydych wedi eu gwahodd i'ch cartref neu gontractwr a gyflogir gennych chi.
- Difrod Damweiniol – lle mae difrod wedi digwydd yn annisgwyl a heb falais
- Difrod Troseddol – lle rydych wedi adrodd am ddifrod i'r eiddo o ganlyniad i naill ai ymddygiad troseddol neu wrthgymdeithasol.

- Camdriniaeth Ddomestig - Difrod i'r eiddo lle rydych wedi adrodd am ddigwyddiad i'r Heddlu, a lle mae'r troseddwr yn parhau i fyw yn yr eiddo neu os ydych yn parhau i fod mewn berthynas, ac nid ydych yn cymryd camau yn erbyn y person hwnnw.
- Dim Mynediad - y gost am apwyntiad a gafodd ei golli pan fydd trefniadau wedi cael eu gwneud ymlaen llaw i gynnal gwaith atgyweirio ac nid oedd mynediad ar gael ar yr amser y cytunwyd arno.
- Cam-drin y Gwasanaeth Brys – pan mae'n amlwg y gallai'r gwaith atgyweirio wedi aros tan y diwrnod gwaith canlynol.
- Cyfrifoldeb y Tenant – os ydych yn defnyddio'r Gwasanaeth Atgyweirio gan gynnwys y Gwasanaeth Brys Tu Allan i Oriau er mwyn adrodd am atgyweiriad sy'n cael ei ganfod yn ddiweddarach i fod yn gyfrifoldeb i chi.
- Newidiadau Tenantiaid – Os byddwch yn ymgymryd â newidiadau i'r eiddo heb awdurdod, ac nad ydynt yn cyrraedd safonau gofynnol y Cyngor a byddwch yn methu neu'n gwrthod i wneud y gwaith adfer.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o bryd y gall taliadau cael eu hailgodi gennych ond mae yna amgylchiadau eraill lle gall ailgodiad taliadau fod yn gymwys a fe'ch hysbysir ar adeg adrodd am y gwaith atgyweirio.

- Disodli'r holl gloeon ar ddrysau gan gynnwys y rhai ar gyfer garejys a siediau, sydd ddim yn gysylltiedig â thraul resymol h.y. allweddi coll.
- Mynediad gorfodol a difrod cysylltiedig gan y Cyngor oherwydd allweddi coll neu alwadau brys gan yr Heddlu neu gan wasanaethau brys eraill neu os oes rhaid i'r Cyngor wneud mynediad gorfodol er mwyn gwneud gwasanaeth blynyddol.
- Gwydr mewnol ac allanol sydd wedi difrodi gan gynnwys ffenestri â phren drostynt.
- Ffitiadau glanweithiol sydd wedi'u torri neu ddifrodi.
- Gwaith trydanol lle mae colli'r cyflenwad pŵer wedi cael ei achosi gan eich offer eich hun megis y ffwrn.
- Archwiliadau diogelwch trydanol yn dilyn eich addasiadau wich hunain gan gynnwys ffitiadau golau.
- Cost ymweliad Contractwr er mwyn archwilio/atgyweirio ffitiadau nwy neu drydanol oherwydd diffyg cyflenwad pŵer sydd wedi'i achosi gennych chi am beidio â rhoi credyd ar eich cerdyn/allwedd.
- Sinciau, basnau golchi dwylo, baddonau, cawodydd, toiledau a chwteri wedi'u blocio sydd wedi'i achosi gan ddefnydd anaddas neu lle ystyrir nad yw'n cael ei briodoli i draul resymol.
- Cael gwared ar, a diogelu, atgyweiriad heb awdurdod neu sy'n is na'r safon.
- Diogelu neu wneud unrhyw waith i osodion, ffitiadau neu gyfarpar a osodwyd gennych chi neu sy'n berchen i chi neu i atgyweiriadau gallech wedi gwneud yn ystod eich tenantiaeth.
- Difrod a achosir i eiddo arall drwy eich camddefnydd neu esgeulustod er enghraifft, bath yn gorlifo i mewn i fflat llawr gwaelod.
- Ailosod rheiddiaduron yn dilyn ailaddurno.

Mae Polisi Atgyweiriadau Tai'r Cyngor yn caniatáu tenantiaid i ofyn am adolygiad yn erbyn eu ailgodiad tâl os oes ganddynt reswm da dros anghytuno â phenderfyniad. Gall y rhesymau dros hyn fod:

- Mae'r rheswm am ailgodi'r taliad yn anghywir
- Rydych chi'n meddwl bod y gost yn anghywir
- Rydych chi'n meddwl bod gennych amgylchiadau arbennig, nad ydynt wedi cael eu hasesu neu eu hystyried yn briodol

Byddwch yn cael gwybod am y broses adolygu yn ysgrifenedig os bydd ailgodiad tâl yn cael ei ddilyn

#### 4. Pryd bydd fy atgyweiriad yn cael ei gwblhau?

Mae ein hamserau targed wedi'u seilio ar:

- Polisi a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y Cyngor
  - Y ddeddfwriaeth Hawl i Atgyweirio
  - Arfer da derbyniol
  - Blaenoriaethau y penderfynwyd gan ein Tîm Syrfewyr ac Atgyweiriadau Canolog
- Blaenoriaethau presennol yw:-

Côd blaenoriaeth	Categori	Amser Targed i gwblhau'r atgyweiriad
01	Argyfwng – tu allan i oriau	2 Awr
02	Argyfwng – oriau gwaith	Yr Un Diwrnod
03	Apwyntiad	20 Diwrnod
05	Apwyntiad	45 Diwrnod
08	Apwyntiad yn dilyn cyn arolygiad o'r gwaith	60 Diwrnod

#### 5. Pwy fydd yn gwneud y gwaith?

- Mae'r rhan fwyaf o atgyweiriadau yn cael eu cyflawni gan Is-adran Gweithrediadau Atgyweirio Tai'r Cyngor.
- Rydym yn defnyddio contractwyr allanol ar gyfer rhai atgyweiriadau gan gynnwys rhai gwaith arbenigol megis:

Atgyweiriadau/gwasanaethau nwy  
Gweithfeydd Toeau Gwastad.  
Liffitiau grisiau ac offer codi  
Selio rhag lleithder  
Sgrinio diogelwch

- Rhaid i holl contractwyr gadw at drefniadau gweithio'r Siarter Ymddiriedolaeth tra'n gweithio yn eich cartref. Mae copi o'r Siarter ar gael o'ch Swyddfa Tai Ardal/Cymdogaeth leol ac mae ar gael ar wefan y Cyngor.

#### 6. Cyfrifoldeb Cynnal a Chadw ar y Cyd

Gall rhai atgyweiriadau fod yn gyfrifoldeb i chi a'ch cymdogion ac yn yr amgylchiadau hyn bydd angen i ni ymgynghori â nhw cyn y gallwn gynnal gwaith atgyweirio. Rhai esiamplau yw:

- Simneiau a thoeau
- Gwteri a pheipiau dŵr
- Systemau trydanol
- Systemau dŵr a draenio
- Llwybrau troed a grisiau a ddefnyddir ar y cyd
- Ffiniau, ffensys, waliau, gatieu sy'n gyffredin rhyngoch
- Mynediad sy'n gyffredin rhyngoch

Oni bai bod y gwaith atgyweirio yn cael ei ystyried fel argyfwng neu yn beryglus gallai hyn arwain at oedi gyda'r gwaith atgyweirio yn cael ei gwblhau, fodd bynnag, byddwn yn rhoi gwybod i chi os mai dyma'r achos.

## 7. Arolygon Bodlonrwydd

Efallai y cysylltir â chi ar ôl cwblhau atgyweiriad i roi eich barn.

### Gweithrediadau Atgyweirio Tai

- Rydym yn cynnal arolygon boddhad ffôn i tua 20% o atgyweiriadau Ymateb a gwasanaethu systemau Gwresogi, rydym hefyd yn ceisio cwblhau arolygon boddhad 100% pan fydd gwaith yn cael ei archwilio ar gyfer atgyweiriadau mwy o faint er mwyn rhoi 'ciplun' o farn tenantiaid o'r gwasanaeth atgyweirio yr un diwrnod y cwblheir y gwaith atgyweirio.

### Safon Ansawdd Tai Cymru

- Rydym yn ceisio cwblhau 100% o arolygon boddhad dros y ffôn ar gwblhau rhaglenni gwaith a gynlluniwyd, os na fyddwn yn cael ateb ar y ffôn, byddwn yn anfon holiadur boddhad ymlaen llaw i gael adborth ar safon darparu ein gwasanaeth.

## 8. Gollyngiadau Nwy

Mewn achos o nwy yn gollwng mae'n **RHAID i chi ffonio'r wasanaeth argyfwng Wales & West Utilities ar 0800 111 999.**

- Byddant yn rhoi gwybodaeth argyfwng penodol i chi, a hefyd yn eich cynghori y bydd peiriannydd yn cyrraedd o fewn awr (o fewn 30 munud fel arfer)
- Bydd y peiriannydd yn ei wneud yn ddiogel drwy osod cap ar ochr allfa'r mesurydd nwy os yw'r gollyngiad ar ôl y mesurydd nwy a rhoi gwybod i ni
- Os yw'r gollyngiad ar y mesurydd nwy neu cyn y mesurydd, byddant yn gwneud y gwaith ar y pryd

### Os nad ydych yn gallu ffonio am unrhyw reswm, yna dylech:

- Ddiffodd y cyflenwad nwy wrth y falf rheoli brys os yw'n bosib (Mae'r/Dylai'r falf fod wedi ei leoli wrth ymyl y mesurydd nwy, dylai'r falf fod wedi'i ddiffodd pan gaiff ei droi i lawr o'r safle fertigol i'r safle llorweddol)
- Peidiwch â gweithredu unrhyw switsh trydanol neu unrhyw offer trydanol neu weithredu cloch y drws neu unrhyw system intercom drws eraill neu ddyfeisiau diogelwch trydanol
- Awyrwch yr ystafelloedd yr effeithir arnynt gan yr arogl nwy, pob ystafell os oes angen, drwy agor y ffenestri a'r drysau blaen / cefn
- Peidiwch â defnyddio matsys neu fflam noeth
- Peidiwch ag ysmegu
- Gadewch yr eiddo a rhowch wybod i'r Swyddfa Tai Ardal. Peidiwch â dychwelyd nes bod peiriannydd wedi rhoi caniatâd i chi i wneud hynny

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach am y gwasanaeth atgyweirio arnoch, cysylltwch â'ch swyddfa tai leol.